



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Ymgynghoriad ar Reoliadau i ddiwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n weithredol wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 5 Hydref 2020

**Trosolwg** Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion i ddwyn i rym Reoliadau i ddiwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n weithredol wedi i'r DU ymadael â'r UE.

**Sut i ymateb** Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 5 Hydref 2020. Gallwch wneud hynny:

- **Drwy ffurflen ar-lein**
- **Drwy e-bost neu yn y post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.**

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion Cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:

**Y Gangen Byw'n Iach ac Egniol**  
Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [fforddofyw@llyw.cymru](mailto:fforddofyw@llyw.cymru)

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgylmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	<b>5</b>
<b>Cefndir</b>	<b>5</b>
<b>Costau a buddion</b>	<b>6</b>
<b>Cwestiynau'r ymgynghoriad</b>	<b>7</b>
<b>Ffurflen ymateb</b>	<b>8</b>

## Crynodeb

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â goblygiadau'r DU yn ymadael â'r UE a'r angen i ddiwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ('Rheoliadau 2019') er mwyn sicrhau bod trefniadau gorfodi ymarferol yn parhau yng Nghymru yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.

## Cefndir

Mae'r ddeddfwriaeth a restrir isod wedi sefydlu'r trefniadau gorfodi yng Nghymru ar gyfer ymrwymadau sy'n codi o ddeddfwriaeth yr UE ym maes honiadau am faethiad ac iechyd; ychwanegu fitaminau, mwynau a sylweddau eraill at fwydydd; bwyd ar gyfer grwpiau penodol; ac ychwanegion bwyd (deddfwriaeth NLCS).

Fe wnaeth Rheoliadau 2019 ddiwygiadau technegol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n gwbl weithredol mewn achos o 'dim cytundeb'. Ni roddwyd unrhyw bwerau newydd i Weinidogion Cymru. Cafodd y rheoliadau canlynol eu newid yn sgil Rheoliadau 2019:

- Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000
- Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006
- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003
- Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Cymru) 2007
- Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007
- Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009
- Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) Cymru 2016.

Rydym yn croesawu adborth ar gynigion ar gyfer Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ('Rheoliadau 2020'). Bydd y rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 er mwyn adlewyrchu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon (NIP) ac yn dilyn y cyfnod pontio, bydd cyfreithiau penodol yr UE yn parhau'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Yn benodol, bydd Rheoliadau 2020 yn diddymu cyfeiriadau at yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon ac yn newid cyfeiriadau at y DU gyda Phrydain. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn o natur dechnegol a'r nod yw sicrhau bod agweddau penodol ar gyfraith Cymru sy'n ymwneud â maethiad yn parhau i weithredu'n effeithiol yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.

## Proses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am gyfnod o dair wythnos, er mwyn rhoi cyfle i bartïon yng Nghymru sydd â buddiant i gyflwyno sylwadau ar y cynnig. Bydd unrhyw ymatebion a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus a bydd crynodeb o'r ymatebion a dderbynnir yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru o fewn 3 mis yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

## Ymgynghoriadau Eraill

Mae ymgynghoriadau'n cael eu cynnal hefyd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Mae Lloegr eisoes wedi cwblhau ymgynghoriad ar Reoliad y DU gyfan (a darpariaeth gorfodi domestig Lloegr) a fydd yn diwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020, i adlewyrchu deddfwriaeth NLCS yr UE sydd wedi cael ei roi ar waith gan yr UE ers mis Mawrth 2019 a Phrotocol Gogledd Iwerddon gan sicrhau y bydd cyfraith yr UE a gedwir yng nghyfraith y DU yn berthnasol i Brydain yn unig yn dilyn y cyfnod pontio. Bydd deddfwriaeth NLCS yr UE, fel y nodir yn Atodiad 2 Protocol Gogledd Iwerddon, yn parhau'n uniongyrchol berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

## Costau a Buddion

### Diwydiant

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar wneuthurwyr a manwerthwyr: bwydydd wedi'u rhagbecynnu ac ychwanegion bwyd; fformwla fabanod a fformwla ddilynol; bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod; bwydydd at ddibenion meddygol arbennig; deiet cyfnewid cyflawn er mwyn rheoli pwysau; cynhyrchion bwyd sy'n gwneud honiadau maeth neu iechyd mewn cyfathrebiadau masnachol, boed ar eu labeli, wrth eu cyflwyno neu yn eu hysbysebion. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cynnig ac rydym yn amcangyfrif mai dim ond ychydig iawn o amser y bydd busnesau'n gorfod ei neilltuo i ymgylfarwyddo â'r gweithdrefnau newydd. Bydd dogfennau canllaw'n cael eu diweddarau a'u cyhoeddi'n unol â hynny.

### Y Sector Cyhoeddus

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer y polisi hwn wedi'i gwblhau. Rydym yn ystyried na fydd y ddeddfwriaeth i ddomestigeiddio deddfwriaeth bwyd a maethiad yr UE yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, neu gyfeiriadedd rhywiol), neu'n effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol. Ni fydd y polisi'n cael unrhyw effaith ar gysylltiadau a swyddogaethau teuluol ychwaith.

### Buddion

Nid oes unrhyw fuddion cynyddol yn gysylltiedig â'r cynnig gan nad yw'n rhoi unrhyw faich ychwanegol neu newydd ar fusnesau a chyrff gorfodi.

## **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir i ddiwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019?
2. Ydych chi'n cytuno â'r effeithiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn?
3. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau sydd heb eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y mater hwn?

# Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Ffurflen ymateb

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 5 Hydref 2020 i;

## Y Gangen Byw'n Iach ac Egniol

Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Neu gallwch ei gwblhau'n electronig a'i anfon at: [fforddofyw@llyw.cymru](mailto:fforddofyw@llyw.cymru)

- 1 Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir i ddiwygio Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019?
- 2 Ydych chi'n cytuno â'r effeithiau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn?
- 3 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau sydd heb eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
- 4 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar y mater hwn?

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb barhau'n ddiennw, ticiwch yma



